**Polisi Presenoldeb Ysgol Gyfun Rhydywaun**

**Dyddiad y polisi**: Chwefror 2015

**Dyddiad Adolygu**: Chwefror 2016

## 1. Cyflwyniad

Mae polisi presenoldeb Ysgol Gyfun Rhydywaun wedi ei seilio ar yr angen i bob disgybl fynychu'r ysgol yn ddyddiol er mwyn derbyn yr addysg orau posibl a'r paratoad orau posibl ar gyfer gweithredu fel aelod llawn a chyfrifol o gymdeithas. Y sail resymegol ar gyfer y Polisi Presenoldeb yw'r angenrhaid i sicrhau bod lefel presenoldeb ysgol gyfan yn cyrraedd 95% neu uwch, yn flynyddol.

Wrth ddatblygu'r polisi hwn ystyriwyd effaith ac oblygiadau colli ysgol yn rheolaidd, agweddau disgyblion a theuluoedd, problemau trafnidiaeth, disgyblion sy'n colli ysgol yn rheolaidd am wythnosau cyfan, disgyblion sy'n colli ambell ddiwrnod yn rheolaidd, y gefnogaeth o'r AALl a strategaethau mewnol amrywiol yr ysgol i fynd i'r afael a phresenoldeb.

**Cyd-destun cyfreithiol presenoldeb ysgol:**

Mae gan Rieni/Gofalwyr disgyblion oedran ysgol orfodol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg effeithlon, llawn amser dryw fynychu'r ysgol neu fel arall (Adran 7, Deddf Addysg 1996)

Os nad yw disgybl o oedran ysgol orfodol sydd wedi cofrestru ag ysgol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yna mae'r rhiant yn euog o drosedd (Adran 444(1), Deddf Addysg 1996).

Mae gan ysgol ddyletswydd gyfreithiol i gadw cofrestr gywir o bresenoldeb pob disgybl (Adran 434(1), Deddf Addysg 1996).

Mae'n rhaid i bob disgybl o oedran gorfodol fod yn brydlon a chofrestru ddwywaith y dydd; ar gychwyn y sesiwn fore ac unwaith yn ystod y sesiwn brynhawn. (Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010).

Yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â mynychu ysgol yn rheolaidd, mae gan yr ysgol yr awdurdod i ofyn i hysbysiad cosb gael ei gyflwyno i rieni os yw patrymau presenoldeb y disgybl yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cod (Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013). Mae gan y Pennaeth yr hawl I awdurdodi absenoldeb yn unol å Rheoliadau Addysg ) Cofrestru Disgyblion) Cymru 2010.

## 2. Nodau

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Nod y polisi presenoldeb hwn yw sicrhau bod yna system effeithlon, sy'n hysbys i bawb, ar gyfer sicrhau dull ysgol gyfan o hybu presenoldeb ysgol dda, ac ymateb yn brydlon ac effeithiol i ddatrys materion yn ymwneud â phresenoldeb.

Mae'r polisi'n amlinellu'r gweithdrefnau priodol sydd ar waith a sut bydd yr ysgol yn cydweithio â rhieni/gofalwyr a disgyblion i gyflawni'r nod hwn.

## 3. Disgwyliadau

- Mae'n rhaid i ddisgyblion oedran ysgol orfodol fod yn brydlon ar gyfer cofrestru yn y bore a'r prynhawn.

- Mae'n rhaid i ddisgyblion fynychu pob gwers yn brydlon

- Mae prydlondeb yn ofyniad cyfreithiol i bob disgybl o oedran ysgol orfodol, a gall rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) disgybl sy'n hwyr yn gyson (ar ôl i'r ystafell ddosbarth gau) h.y. absenoldebau parhaus wynebu achosion cyfreithiol.

- Os oes angen i ddisgyblion adael/fod yn absennol o'r ysgol mae angen nodyn/cerdyn meddygol gan rieni/gofalwyr yn gofyn caniatâd

- Bydd rhieni'n darparu gwybodaeth a/neu resymau dros bob absenoldeb.

## 4. Cofnodi Presenoldeb

**Gweithdrefnau Cofrestru:**

- Disgwylir disgyblion gyrraedd yr ysgol rhwng 8.20 ac 8.30 y bore.

- Disgwylir disgyblion fod yn brydlon ar gyfer cofrestru ar yr amseroedd canlynol:
  Cofrestru bore rhwng 8.40-9.00am
  Cofrestru prynhawn rhwng 2.00pm

- Rhoddir marc cyrraedd yn hwyr heb ei awdurdodi i ddisgyblion sy'n cyrraedd ar ol cofrestru. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyrraeth statudol a allai fod yn ofynnol.

- Rhaid i'r gofrestr hon gofnodi a yw disgybl yn bresennol, yn absennol, a nodi os nad oes angen iddo/iddi fod yn bresennol neu ei fod/bod yn mynychu gweithgaredd addysgol a gymeradwyir (a nodir fel bod yn bresennol)

- Mae'n bwysig bod unrhyw absenoldeb hanner diwrnod yn cael ei gofnodi fel 'wedi'i awdurdodi' neu 'heb ei awdurdodi', a dim ond yr ysgol all wneud y penderfyniad hwn.

**5. <u>Diffiniadau</u>:**

***'Absenoldeb wedi'i awdurdodi'***

- Mae absenoldeb yn cael ei gyfrif yn absenoldeb wedi'i awdurdodi pan mae plentyn wedi bod i ffwrdd o'r ysgol am reswm dilys ac mae'r ysgol wedi cael hysbysiad gan riant, warchodwr neu gynhaliwr e.e. salwch.
- Yr ysgol yn unig gall awdurdodi'r absenoldeb. Nid oes gan rieni'r awdurdod hwn. O ganlyniad, ni fydd pob absenoldeb a gefnogir gan rieni yn cael ei gyfrif yn absenoldeb wedi'i awdurdodi e.e. siopa.

***'Absenoldeb heb ei awdurdodi'***

- Mae absenoldeb yn cael ei gyfrif yn absenoldeb heb ei awdurdodi pan fo disgybl i ffwrdd o'r ysgol heb ganiatâd yr ysgol a Rhiant, Gwarchodwr neu Gynhaliwr.
- Mae'r absenoldeb heb ei awdurdodi os yw plentyn i ffwrdd o'r ysgol heb reswm da, hyd yn oed gyda chefnogaeth rhiant.

***'Gweithgaredd addysgol a gymeradwyir'***

- Gweithgaredd a gynhelir ar safle'r ysgol
- Wedi'i gymeradwyo gan unigolyn a awdurdodir gan y Corff Llywodraethu neu'r Pennaeth
- Wedi'i oruchwylio gan unigolyn a awdurdodir gan y Corff Llywodraethu neu'r Pennaeth
- O natur addysgol, gan gynnwys profiad gwaith, teithiau maes, ymweliadau addysgol neu pan fo disgyblion yn cael rhan o'u haddysg mewn lleoliad arall gan barhau ar y gofrestr, ac yn y mwyafrif o achosion, dan oruchwyliaeth ysgol.

***'Nid yw'n ofynnol mynychu'***

- Fe'i defnyddir ar gyfer nifer fach o amgylchiadau anfynych penodol. e.e. tywydd gwael pan fo rhai ffyrdd yn cau.

**6. <u>Cyfrifoldebau'r Ysgol</u>**

- Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn ymateb i faterion presenoldeb trwy fonitro lefelau presenoldeb yn ddyddiol trwy law DF a AY. Mae'r ysgol yn derbyn targed presenoldeb blynyddol o'r AALl. Gosodwyd 94.3% ar gyfer Mai 2015.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw:

- monitro presenoldeb disgyblion yn wythnosol;
- monitro presenoldeb cyffredinol bob hanner tymor (chwe wythnos);

- cyflwyno cyfraddau presenoldeb i'r Awdurdod Lleol bob hanner tymor (chwe wythnos);
- cysylltu â'r Awdurdod Addysg Leol i drafod targedau ar gyfer gwella presenoldeb
- at ddibenion Estyn a Llywodraeth Cymru, sicrhau bod data presenoldeb ar gael.

**7. <u>Ceisiadau am absenoldebau</u>**

**Salwch**.

- Nid oes disgwyl i ddisgyblion fynychu ysgol o ganlyniad i salwch tymor byr, tymor hir neu salwch mynych.

- Ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb, disgwylir i rieni ffonio'r ysgol a gadael neges ar y peiriant ateb i roi rheswm am absenoldeb ei plenty/ei phlentyn.

- Pan mae plentyn yn absennol yn annisgwyl, bydd yr athro dosbarth yn cofnodi'r absenoldeb ar y gofrestr. Bydd y Swyddfa Weinyddol yn ceisio cysylltu â rhiant, gwarchodwr neu ofalwr, os nad oes rheswm wedi'i roi.

- Pan mae plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, dylid dod â nodyn gan riant neu warchodwr i egluro'r absenoldeb.

- Gellir anfon nodyn i'r ysgol cyn diwrnod yr absenoldeb, e.e. os oes gan blentyn apwyntiad meddygol.

- Danfonir neges destun dyddiol i rieni nad sydd wedi darparu gwybodaeth am bresenoldeb y disgybl.

**<u>Gwyliau teuluol yn ystod tymor ysgol</u>**

Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn defnyddio polisi dim goddefgarwch o ran awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol, yn unol â pholisi'r awdurdod lleol. Cadarnhawyd hyn gan Gorff Llawn Llywodraethwyr yr ysgol yn Ionawr 2015.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n unol â Chod Ymddygiad yr awdurdod lleol ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig am absenoldebau rheolaidd o'r ysgol. Mae'r pennaeth yn defnyddio'i hawl i awdurdodi absenoldebau yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, codau presenoldeb a chanllawiau ategol gan yr awdurdod lleol.

**8. <u>Absenoldebau mynych heb eu hawdurdodi (h.y. yn absennol yn gyson)</u>**

Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant, gwarchodwr neu ofalwr unrhyw ddisgybl sydd ag absenoldeb heb ei awdurdodi. Os yw plentyn yn absennol heb awdurdod, dro ar ôl tro, gofynnir i'r rhieni neu'r gwarchodwyr ymweld â'r ysgol i drafod y broblem.

Os nad yw'r sefyllfa'n gwella ac mae presenoldeb y disgybl yn gostwng islaw 86% (90% ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4) yn y cyfnod 6 wythnos flaenorol, yna bydd yr ysgol yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, a fydd yn ymweld â'r cartref a cheisio sicrhau bod y rhieni neu'r gwarchodwyr yn deall difrifoldeb y sefyllfa.

Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn rhoi cefnogaeth i'r ysgol, disgyblion a rhieni er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd ac i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Mae'r gwasanaeth yn trafod ag asiantaethau eraill, ac yn darparu cysylltiad pwysig rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'n helpu rhieni ac athrawon i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael budd o fynychu'n rheolaidd.

Mae cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol wedi'i ddatganoli i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Pan fo achosion o ddisgyblion 'yn absennol yn gyson' yn parhau er gwaethaf mewnbwn gan lywodraethwyr, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, cedwir yr hawl i ystyried cymryd camau cyfreithiol yn erbyn unrhyw rieni neu warchodwyr sydd, dro ar ôl tro, yn methu â derbyn eu cyfrifoldeb dros anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd**.**

**9. <u>Monitro ac adolygu lefelau presenoldeb</u>**

Mae pob disgybl yn derbyn targed presenoldeb o 95%. I'r disgyblion nad sy'n cyrraedd hyn mae'r strwythur canlynol ar waith:

- Amlinellir cyfrifoldeb y rhieni yn glir ym mholisi Disgyblaeth a Threfn yr ysgol a'r Cytundeb Ysgol Gartref. Gofynnir iddynt arwyddo datganiad eu bod yn cytuno â dymuniadau'r ysgol a'u bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol.

- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gysylltu å'r cartref trwy neges destun, ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb i holi'r rheswm am yr absenoldeb.

- Pan fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol disgwylir nodyn gan y rhieni yn awdurdodi'r absenoldeb. Os na ddaw'r nodyn mewn da bryd bydd yr athro dosbarth yn ceisio cysylltu â'r rhiant trwy'r trefnydd personol yn y lle cyntaf, ac yna os na ddaw gwybodaeth gan y rhiant fe wneir ymholiadau pellach gan y Swyddfa. Noder, yn ôl cyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cylchlythyr 3/99), yr ysgol sydd â'r hawl i ddilysu absenoldeb disgybl ac nid y

rhiant. Mae gan yr ysgol hawl i wrthod awdurdodi absenoldeb disgybl os oes amheuaeth ei fod yn groes i gyfarwyddiadau'r Swyddfa Gymreig.

- Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyfnod Allweddol gyda chydweithrediad y Pennaeth Cynnydd a Lles yw ymdrin â phroblemau absenoldeb dwys a chyson. Llythyrir rhieni disgyblion ble mae'u presenoldeb yn peri pryder. Cydweithir yn agos â Swyddog Lles yr ysgol er mwyn datrys problemau sy'n mynnu sylw arbennig.

- Pan fydd achosion yn peri pryder mawr yna bydd y Pennaeth Cynnydd a Lles yn cysylltu â'r pennaeth cyfnod allweddol sydd â chyfrifoldeb dros bresenoldeb, ac yna'r Pennaeth os bydd angen. Yn ystod y cyfnod yma fydd y PC&Ll yn cysylltu'r cartref yn gyntaf ac os nad oes gwelliant fydd yr ysgol yn trefnu cyfarfod ffurfiol gyda'r rhieni.

- Trafodir presenoldeb yn wythnosol yn ystod y cyfarfodydd bugeiliol PC&Ll/ Tiwtoriaid.

- Pan fydd presenoldeb o dan 86% (sy'n cynnwys absenoldebau anawdurdodedig) bydd yr ysgol yn danfon 'llythyr cyntaf' i'r cartref. Yn dilyn hwn os nad oes gwelliant ar ol cyfnod o bythefnos danfonir yr 'ail lythyr'.

- Cyfeirir, i'r Swyddog Presenoldeb a Lles (AWO), unrhyw ddisgybl sydd ag absenoldebau anawdurdodedig a phresenoldeb llai na 86% am gyfnod o 6 wythnos.

- Mae'r Pennaeth Cyfnod Allweddol yn cwrdd â AWO RCT yn wythnosol a MT bob pythefnos i drafod grŵp targed presenoldeb, ac i gyfeirio unrhyw ddisgyblion newydd.

- Mae'r ysgol yn creu grwpiau targed presenoldeb rhwng 92-86.9% ac yn eu mentora yn wythnosol.

- Mae pob disgybl yn gosod targed ei hun am y flwyddyn academaidd yn seiliedig ar i) presenoldeb y flwyddyn academaidd flaenorol, ii) Isafswm o 95%. Atgoffir y disgyblion yn gyson am y targed hwn mewn gwasanaethau a gan athrawon dosbarth ac fe'u hanogir fel unigolion i geisio ymgyrraedd at y targed hwn. Codir ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd presenoldeb drwy ddarparu allbrintiau i bob dosbarth yn dangos cyfradd presenoldeb pob unigolyn. Gosodir hwn ar fur yr ystafell ddosbarth fel bo pob unigolyn yn gwybod beth yw ei gyfradd presenoldeb a beth yw cyfradd y dosbarth.

- Ceisir annog cyfradd presenoldeb uchel drwy wneud defnydd o'r gyfundrefn wobrwyo. Cyflwynir tystysgrif i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd y targed o 95% pob tymor mewn gwasanaethau blwyddyn. Paratoir graffiau presenoldeb dosbarthiadau a'u harddangos ar hysbysfwrdd a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer hyn. Ar ddiwedd y flwyddyn gwobrwyir disgyblion sydd wedi sicrhau presenoldeb llawn.

- Cynhelir wythnos 100% presenoldeb bob tymor. Rhoddir gwobrau i'r aelodau buddugol.

- Rhoddir gwobr i ddisgyblion sy'n cyrraedd 100% am flwyddyn academaidd.

- Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion Grp Gwella Ysgolion (SIG) yn dymhorol i rannu arfer dda a strategaethau ysgol gyfan.

**10. Cosb Penodedeig am golli ysgol**

Ym mis Medi 2013, daeth Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 i rym, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater o bresenoldeb isel yn yr ysgol.

Rhan o hyn yw i bob awdurdod lleol ddatblygu cod ymddygiad sy'n amlinellu sut y byddai'r cynllun yn gweithio o ran sicrhau cysondeb wrth gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar draws y Sir.

Ar 31ain o Orffennaf 2014, cymeradwyodd Cabinet Rhondda Cynon Taf y Cod Ymddygiad, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig:

- Colli 10 sesiwn neu ragor o absenoldeb heb ganiatâd yn ystod y tymor presennol;

- Pan fod disgybl yn gyson yn hwyr ac yn cyrraedd mwy na 30 munud ar ôl y sesiwn gofrestru, o leiaf 10 gwaith yn ystod y tymor ;

- Pan fod rhieni/cynhalwyr (gofalwyr) yn gwrthod gweithio gyda'r ysgol i wella presenoldeb eu plentyn;

- Pan fod disgybl yn chwarae triwant yn rheolaidd mewn lleoedd cyhoeddus yn ystod oriau ysgol;

- Cadarnhawyd y polisi gan Gorff Llawn y Llywodraethwyr yn Ionawr 2015.

**11. Gwyliau yn ystod tymor ysgol.**

- Ni awdurdodir ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor. Dim ond o dan yr amgylchiadau eithriadol ganlynol y caniateir absenoldeb awdurdodedig:

  · Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu gyda'r Lluoedd Arfog;
  · Rhiant neu blentyn a salwch sy'n cyfyngu ar fywyd;

- Teuluoedd sydd wedi dioddef trawma acíwt.

Defnyddir côd ‘G’ am wyliau anawdurdodedig, ond ‘H’ ar gyfer unrhyw achos sy’n cwrdd â’r meini prawf uchod.